# <u>DATGANIAD O'R RHESYMAU</u>

**Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Llanelli)**
**(Cyfyngu Arbrofol ar Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)**
**(Amrywiad Rhif 43) 2024**

1. Mae Gwaharddiad ar Aros yn cael ei gynnig i atal parcio yng nghyffiniau cyffordd, gyda'r nod o wella gwelededd a chynnal mynediad diogel ar gyfer parcio oddi ar y stryd wrth **gyffordd Fransham Street â Heol Bradford**, Llanelli.

2. Mae Gwaharddiad ar Aros, Llwytho a Dadlwytho yn cael ei gynnig i hwyluso llif y traffig ar hyd rhan gul o'r briffordd ar hyd **Stryd Cowell**, Llanelli ac mae darn o'r Gwaharddiad presennol ar ‘Aros ar Unrhyw Adeg’ hefyd yn cael ei ddirymu i hwyluso hyn.

3. Wrth **gyffordd Stryd Stepney â Stryd Cowell** yn Llanelli, mae ardal ar gyfer Llwytho yn Unig am 20 munud yn cael ei chynnig i alluogi llwytho a dadlwytho nwyddau ar gyfer busnesau cyfagos.

4. Yn **Stryd Cowell** yn Llanelli:

   (a) bydd y bwriad i ddirymu rhan o'r Lle Parcio presennol i Bobl Anabl am 3 awr (8am-6pm) yn hwyluso ehangu'r droedffordd yn yr ardal; a

   (b) bydd y bwriad i ddirymu darn o'r Lle Parcio am Amser Cyfyngedig (2 awr, heb ddychwelyd cyn pen 2 awr) yn hwyluso darparu lle parcio i bobl anabl.